

Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023

Hysbysiad o gyfarfod:**Cyngor Sir****Dydd Iau, 7fed Rhagfyr, 2023 at 2.00 pm,
Council Chamber - Council Chamber****AGENDA**

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Eitem No	Eitem	Tudalennau
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datgan Buddiannau	
3.	Cyhoeddiad y Cadeirydd	1 - 2
4.	Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26ain Hydref 2023	3 - 12
5.	ADLEOLI GWASANAETH CYFEIRIO DISGYBLION DE SIR FYNWY	13 - 32
6.	ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR 2022/2023, GOFAL CYMDEITHASOL, DIOGELU AC IECHYD	33 - 134
7.	ADRODDIAD GWERTHUSO DIOGELU	135 - 192
8.	MEWN ACHOS O'R ANGEN YN CODI - GALW I MEWN I DDATBLYGU DYFODOL CANOLFANNAU FY NIWRNOD, FY MYWYD	193 - 200
9.	Cynigion i'r Cyngor	
9.1.	Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Paul Pavia Mae'r Cyngor hwn yn nodi: • Canser y prostad yw'r canser mwyaf cyffredin ymhlith dynion. Bydd 1 o bob 8 dyn yn cael diagnosis, gan godi i 1 o bob 4 ar gyfer dynion Du. Gall cymaint â 69% o'r rhai sy'n cael eu trin â llawfeddygaeth profi	

anymataliaeth wrinol o ganlyniad.

- Bydd 1 o bob 25 o ddynion dros 40 oed yn profi rhyw fath o ollyngiadau wrinol bob blwyddyn.
- Bydd 1 o bob 20 o ddynion 60 oed neu hŷn yn y DU yn profinymataliaeth coluddyn.

Yn aml, nid oes gan ddynion sydd angen gwaredu eu gwastraff iechydol (gan gynnwys padiau anymataliaeth, codenni, sgil-gynhyrchion gwastraff stoma, cathetr, colostomi, ileostomi) fynediad uniongyrchol i fin gwastraff iechydol mewn toiledau dynion.

- Mae arolwg o ddynion sy'n byw gydag anymataliaeth yn datgelu bod 95% yn teimlo pryder oherwydd diffyg biniau gwastraff iechydol mewn toiledau dynion ar gyfer cael gwared â phadiau mewn modd hylan.
- Mae bron i draean o'r dynion a arolygwyd wedi cael eu gorfodi i gario eu gwastraff iechydol eu hunain mewn bag.

Mae'r Cyngor hwn yn credu:

- y dylai dynion allu gwaredu cynhyrchion anymataliaeth yn ddiogel ac yn hylennol yn hawdd a gydag urddas ble bynnag maen nhw'n mynd.
- y dylai dynion sydd angen gwaredu eu gwastraff iechydol gael mynediad uniongyrchol at fin gwastraff iechydol mewn toiledau dynion.

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:

- Y dylai'r Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd ystyried, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddarparu o leiaf un bin hylendid iechydol ym mhob toiled dynion y Cyngor Sir – rhai'r cyhoedd ac yn adeiladau'r cyngor.
- Annog darparwyr toiledau cyhoeddus a gweithleoedd eraill yn ein hardal i sicrhau bod biniau hylendid iechydol dynion ar gael yn eu cyfleusterau.
- Cefnogi ymgyrch 'Boys need Bins' Prostate Cancer UK.
- Y dylai Arweinydd y Cyngor ysgrifennu ar ran y Cyngor at ein AS ac AoS lleol yn gofyn iddynt gefnogi ymgyrch 'Boys Need Bins' elusen Prostate Cancer UK a gofyn i'r amryw Lywodraethau edrych i ddiweddarau unrhyw reoliadau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod 'dulliau addas ar gyfer gwaredu rhwymynnau iechydol' yn cael eu darparu ym mhob toiled.

9.2. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Richard John

Mae'r Cyngor hwn:

Yn nodi ymgynghoriad Cam 2 Llywodraeth Cymru ar Dreth Gyngor Decach

Yn cydnabod yr effaith andwyol y byddai opsiynau 2 a 3 Llywodraeth Cymru yn ei chael ar deuluoedd Sir Fynwy, gyda chynnydd o hyd at 16% yn nhreth y cyngor

Yn gofyn i'r Arweinydd ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth

	<p>Leol yn gwrthwynebu unrhyw newidiadau i'r dreth gyngor sy'n effeithio'n anghymesur ar drigolion Sir Fynwy.</p>
10.	Cwestiynau'r Aelodau
10.1.	<p>O'r Cynghorydd Sirol Louise Brown i'r Cynghorydd Sirol Paul Griffiths, Aelod Cabinet dros Economi Gynaliadwy.</p> <p>Yn dilyn y cynnig a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gylchfan High Beech ar y 23^{ain} Mehefin 2022, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y cynnydd sy'n cael ei wneud i wella problemau tagfeydd traffig cylchfan High Beech?</p>
10.2.	<p>O'r Cynghorydd Sirol Louise Brown i'r Cynghorydd Sirol Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd</p> <p>Pa ystyriaeth y mae'r Aelod Cabinet wedi'i rhoi i ymestyn y cyfnod ymgynghori ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Lleol?</p>
11.	Dyddiad y cyfarfod nesaf - 18fed Ionawr 2023

Paul Matthews
Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

Rachel Buckler
Laura Wright
Tony Kear
Catrin Maby
Jan Butler
Ian Chandler
Sara Burch
Alistair Neill
Su McConnel
Mary Ann Brocklesby
Fay Bromfield
Jane Lucas
Emma Bryn
Peter Strong
Meirion Howells
Paul Griffiths
Jackie Strong
Rachel Garrick
Maria Stevens
Steven Garratt
Angela Sandles
Ben Callard
John Crook
Tomos Davies
Dale Rooke
Catherine Fookes
Sue Riley
Jayne McKenna
Jill Bond
Louise Brown
Lisa Dymock
Tony Easson
Christopher Edwards
Martyn Groucutt
Simon Howarth
Richard John
David Jones
Penny Jones
Malcolm Lane
Phil Murphy
Paul Pavia
Maureen Powell
Frances Taylor
Tudor Thomas
Armand Watts
Ann Webb

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein Pwrpas

- i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tîm. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.